## DEWI JONES (Dyffryn Nantlle) ar J. E. Griffith y naturiaethwr

# Doniau ychwanegol dewin yr achau

YN EI ragair i'w lyfr *The Flora of Anglesey and Carnarvonshire* (Bangor d.d.) dywed yr awdur J. E. Griffith:

*'It is eighty-one years since that eminent Botanist, the Rev. Hugh Davies published his Welsh Botanology . . . Since his time no one seems to have taken special interest in the Botany of Anglesey and Carnarvonshire, excepting Dr. John Roberts of Bangor, who died in 1828.'*

Adwaenid y John Roberts hwn fel John Roberts Pen-y-clip, a'i ddiddordeb mawr yn ystod ei oriau hamdden oedd llysieuaeth, a gwelir rhestr ddiddorol o blanhigion Eryri dan ei enw yn y *Tourist's Guide Through the County of Caernarvon*, gan y Parch Peter Bailey Williams a gyhoeddwyd yn 1821.

Yn ystod ei brentisiaeth yn y 'Bangor Dispensary' daeth i gysylltiad â'r Parch Hugh Davies, y llysieuydd enwog a adnabyddid gan lysieuwyr Lloegr fel *'The Welsh Linnaeus'*, ac fel 'Davies y Dail' gan yr ardalwyr lleol, a bu'r berthynas hon yn gaffaeliad mawr iddo yn ei astudiaethau llysieuol cynnar. Dengys y *Medical Directory* fod John Roberts yn apothecari cyn 1815 ac yn llawfeddyg yn 1824.

Yr oedd yn arferiad gan lawer o brif lysieuwyr yr oes aros yng nghartref John Roberts ym Mangor tra oeddynt yn ymweld â safleoedd clasurol Môn ac Eryri; yn eu mysg William Wilson, J. E. Bowman a Charles Babington. Byddai'n arwain yr ymwelwyr i Gwm Idwal neu'r Wyddfa i weld y planhigion prin a chyflogai un o chwarelwyr y Penrhyn fel tywysydd.

* * * *

GELWID y rhan isaf o Stryd Fawr Bangor yn 'Castle Street' bryd hynny, ac ar y gongl gyda 'Dean Street' y trigai ac y cynhaliai John Roberts ei feddygfa. Mae'r adeilad hwn wedi ei ddymchwel ers amser, ond cyn hynny bu'n siop groser Thomas Jones a'i Gwmni.

Bu John Roberts farw yn 1849 (nid yn 1828 fel y dywed Griffith yn ei *Flora*) yn 56 mlwydd oed a chladdwyd ef ym mynwent y Gadeirlan. Gwelir carreg ei fedd wrth ochr y llwybr sy'n cysylltu Allt Glanrafon â Ffordd Gwynedd.

Ganed John Edward Griffith yn 1843 yn fab i Griffith Griffith, Taldrwst, Llangristiolus, Môn. Bwriodd ei brentisiaeth yn siop fferyllydd ei ewythr William Griffith yn Stryd Fawr Bangor, a phan fu ef farw yn 1864 cymerwyd y busnes drosodd gan J. E. Griffith. Bu farw ei wraig gyntaf, Ann, merch Rowland Parry, Fron Heulog, Bangor, yn 188, ac yna ailbriododd ag Ellen Agusta, unig ferch y Parch John Williams Ellis, o'r Glasfryn, Llangybi, a Phlas Lodwig, Bangor.

Mae'n bur debyg iddo roi'r gorau i'w waith fel fferyllydd yn fuan wedi iddo briodi gan mai fel gŵr bonheddig y treuliodd y gweddill o'i oes yn ôl pob sôn.

Ar wahân i'r *Flora*, cyhoeddodd hefyd *Portfolio of Photographs of Cromlechs* yn 1900, â'r *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* yn 1914. Bu J. E. Griffith yn astudio planhigion Môn ac Arfon am ugain mlynedd cyn cyhoeddi ei *Flora* yn 1894 neu '95, ond ychydig a ŵyr iddo gyhoeddi *Flora* o'r ddwy sir, bymtheg mlynedd yn flaenorol. Ymddangosodd y *Flora* cyntaf yn 1879, wedi ei gyhoeddi yn y *Naturalist*, sef cylchgrawn Cymdeithas Naturiaethwyr Swydd Efrog, a hon oedd sylfaen y gyfrol a gyhoeddwyd yn ddiweddarach gan Nixon a Jarvis, Bangor.

* * * *

TUA deng mlynedd a'r hugain yn ôl daeth cyfaill i mi o Fangor ar draws copi anarferol ei faint o *Flora* J. E. Griffith. Roedd R. H. Roberts yn brifathro ysgol ar y pryd, a'i brif ddiddordeb yn ystod ei oriau hamdden oedd astudio dosbarthiad planhigion gwyllt Môn ac Arfon, gan ddilyn llwybrau y Parch Hugh Davies, John Roberts a J. E. Griffith o'i flaen. Yn 1982 cyhoeddodd R. H. Roberts ffrwyth ei lafur mewn cyfrol sy'n dwyn y teitl *The Flowering Plants and Ferns of Anglesey.*

Dangoswyd copi arbennig o *Flora* Griffith i R. H. Roberts gan gasglwr llyfrau o Fangor, ac wrth fyseddu drwyddo sylweddolodd ei fod wedi darganfod copi personol yr awdur. Roedd y llyfr wedi ei ailrwymo, ac roedd tudalennau plaen wedi eu hychwanegu bob yn ail â'r testun gwreiddiol gan wneud i'r llyfr ymddangos yn llawer mwy sylweddol na'r copi cyffredin. Ceisiodd R. H. Roberts ei brynu, ond ni fynnai'r casglwr ei werthu, ac felly y bu hyd at 1982.

Yn ystod y flwyddyn honno, ac yn hollol ddamweiniol, canfu R. H. Roberts fod y llyfr wedi cael ei drosglwyddo i Lyfrgell Dinas Bangor, a chafodd yntau'r cyfle wedyn i'w astudio'n fanylach; bûm innau'n gweld y llyfr wedi i mi gael yr hanes ganddo.

Wrth astudio'r nodiadau a ychwanegwyd gan Griffith ar y tudalennau plaen, gwelir ei fod wedi bod yn brysur yn llysieua yn y ddwy sir am gyfnod sylweddol o amser wedi i'r *Flora* gael ei gyhoeddi yn 1894 neu 1895, ond nid ydynt mor niferus â'r disgwyl.

Cyhoeddodd R. H. Roberts ysgrif ddiddorol ar rai o'r nodiadau hyn yn un o gylchgronau'r Gymdeithas Lysieuol, a'r mwyaf diddorol ohonynt yw'r un sydd yn ymwneud â Glesyn y Morlan (Mertensia maritima), neu Llys yr Ysgyfaint Arfor, i roi enw arall arno: planhigyn prin iawn.

Dywed Griffith ar dudalen 97 ei *Flora* yr arferai'r planhigyn hwn dyfu ym Mae Cemlyn ar Ynys Môn, ond i'r safle gael ei difetha pan adeiladwyd cwt y bad achub yno, ond yn y nodiadau sydd wedi eu hychwanegu yn y copi personol dywed iddo ddarganfod y planhigyn ym Mae Cemlyn ugain mlynedd yn ddiweddarach. Mae sbesimen ohono, a gasglodd yn 1914, ar gadw yn Herbariwm yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd. Dywed y nodiadau hefyd i'r planhigyn gael ei ddarganfod ym Mhorth y Post ac ar y Traeth Coch, dau safle arall.

Yn ei *Welsh Botanology* mae'r Parch Hugh Davies yn dweud fod y planhigyn hwn yn tyfu ym Mae Cemlyn yn ei amser ef, ond yn pwysleisio ei fod yn brin iawn. Ni wnaed record gyhoeddus o'r planhigyn ym Môn wedi 1914.

TUA TROAD y ganrif roedd dwy chwaer o'r enw Massey yn byw yn Llangoed, Môn, ac yn ddiweddar bu arddangosfa o luniau dyfrlliw o'u gwaith yn Oriel Môn, Llangefni. Ar gefn rhai o'r lluniau (yn ôl R. H. Roberts) gwelir nodyn yn cyfeirio at J. E. Griffith ac yn cydnabod ei gymorth i enwi rhai o'r planhigion sydd yn y darluniau.

Yn eu mysg mae Glesyn y Morlan, wedi ei baentio o blanhigyn a gasglwyd gan Frank Massey, brawd i'r chwiorydd, o'r Traeth Coch yn 1903, sef un o'r safleoedd a ddynodir gan Griffith yn ei gopi personol, ond nid yw'n cydnabod Massey fel y darganfyddwr.

Mae'r adolygiad i'r *Flora* a ymddangosodd yn y *Manchester Express* yn canmol y llyfr ar y cyfan er ei fod yn feirniadol o Griffith am iddo hepgor dau rywogaeth newydd o fwsogl a ddarganfuwyd ar yr Wyddfa a Moel Siabod yn 1880!

Ceir yn y gyfrol restrau o blanhigion gwyllt siroedd Môn a Chaernarfon gan gynnwys 1119 o rywogaethau a 219 o wahaniaethau *(varieties)*. Roedd 9 o rywogaethau o blith y cyfanswm ar y pryd yn newydd i wyddoniaeth ac 17 yn ddarganfyddiadau newydd i'r Ynysoedd Prydeinig.

# Y CYNNWYS COLLEDIG

*At y Golygydd*

DERBYNIAIS lyfr yn anrheg gan weddw cyfaill i mi 'chydig ar ôl ei farw, 'REE'S ANGLESEA OR MONA'.

Yr oedd gennyf syniad wedi gweld y teitl bod rhywfaint o werth yn perthyn iddo. Dyma'r hyn sydd ar yr Wyneb-Ddalen.

A
TOPOGRAPHICAL AND HISTORICAL
DESCRIPTION
OF
ANGLESEA OR MONA
CONTAINING
AN ACCOUNT OF ITS
TOWNS CHURCHES PUBLIC EDIFICIES
CASTLES MONUMENTS PICTURESQUE SCENERY
ANTIQUITIES
THE RESIDENCES OF THE
NOBILITY, GENTRY ETC
**Accompanied with Biographical Notices of**
**Eminent and Learned Men to whom this County**
**has given Birth.**
**By**
**THE Rev. J. Evans.**
**Illustrated with Engravings.**
**Printed for Sherwood Neely and Jones**
**London 1810.**

Wedi agor y llyfr, cefais siom fawr, rhif y tudalen cyntaf ynddo yw Cant Pedwar Deg ac Un, a hawdd canfod fod rhywun neu rywrai wedi tynnu'r ysgythriadau (engravings) a/neu luniau yn glir i ffwrdd.

A oes rhywun o'ch darllenwyr tybed a fedr fy ngoleuo ar yr andwyo anghyfrifol ac, i mi, anfaddeuol yma, neu unrhyw wybodaeth am y cynnwys coll.

Wiliam Huws
Hafan Deg
Y Talwrn, Llangefni